| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **28 TACHWEDD 2009** |
| **TEITL:** | **POLISI GAMBLO CYNGOR GWYNEDD** |
| **PWRPAS:** | **ER ARGYMHELLIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETH RHEOLEIDDIO** |

**CEFNDIR**

Yn unol a Deddf Gamblo 2005, mae'n ofynnol fod gan y Cyngor Bolisi Gamblo, a bod y Polisi hwnnw'n cael ei adolygu o leiaf pob 3 blynedd. Mabwysiadwyd y Polisi gwreiddiol yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 25 Ionawr 2007, ac atodir yma drafft ar gyfer ei ailfabwysiadu.

**YMGYNGHORIAD**

Ymgynghorwyd yn helaeth ar y Polisi, drwy gysylltu gyda pob Cynghorydd yr holl Gynghorau Cymuned yng Ngwynedd, Awdurdodau Cyhoeddus, Sefydliadau Gamblo, Cyrff Crefyddol a.y.y.b., ond prin oedd yr ymateb a dderbyniwyd.

**NEWIDIADAU**

Nodir isod y newidiadau a argymhellir, sydd yn diweddaru'r Polisi ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor. Bydd angen ymgorffori'r newidiadau i'r Polisi gwreiddiol a atodir ar eich cyfer.

**1:8:** wedi ei ddileu
**1:9:** wedi ailrifo fel 1:8
**1:10:** wedi ailrifo fel 1:9

**4.5 Casinos**

Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007 i wahodd Casinos oddi fewn y Sir. Gellid gwrthdroi'r penderfyniad yma yn ystod oes y Polisi drwy benderfyniad i'r gwrthwyneb gan y Cyngor Llawn.

**4.8** dileu "y manylion o'r fath fydd" a newid "Medi 2006" gyda "Mai 2009", dileu (dogfen yngynghori).

Bydd y cyngor, yn cyd-destun hwn yn ystyried:

A oedd gan yr adeilad gofrestriad ar wahan i Drethi busnes;

Ydi'r adeiladau cyfagos yn berchen i berson gwahanol;

A'i dim ond o adeiladau hapchwarae eraill y gellir cael i mewn i'r adeilad.

**7:1** Is-adran 2, ychwanegu:

Dylai adeiladau fod ar ffurf sy'n golygu nad yw plant yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn gweithgareddau gamblo nac ychwaith yn gallu cael mynediad yn

ddamweiniol i, neu yn gallu gwylio gweithgareddau hapchwarae y maent wedi eu gwahardd yn benodol rhag cymryd rhan ynddynt.

**Atodiad C, tudalen 17**-cywiro cyfeiriad cyswllt Heddlu Gogledd Cymru i:

Adain Trwyddedu
Heddlu Gogledd Cymru
Yr Ala
Pwllheli
Gwynedd.
LL53 5BU

**Atodiad E tudalen 19** Peiriant Categori C – ei gywiro i ddarllen fel a ganlyn:

Hyd at £1 o fet a hyd at £70 o wobr.

Diwygio Peiriant D i:

£5 gwobr arian o £8 gwobr anariannol.

A fyddech cystal os gwelwch yn dda a defnyddio'r ffurflen ymateb sydd ynghlwm er mwyn sicrhau cysondeb ac i hwyluso'r gwaith gweinyddol a chasglu gwybodaeth.

**<u>ARGYMHELLIAD</u>**

Bod y Pwyllgor yn argymell derbyn y newidiadau a nodir a'i hymgorffori yn y Polisi.